Gweithwyr Mudol - hawliau yn y gwaith

Ar gyfer pwy mae'r daflen ffeithiau hon?

Mae'r daflen ffeithiau hon yn rhoi gwybodaeth am eich hawliau yn y gwaith.

Mae gan bron pob gweithiwr hawliau yn y gwaith. Mae hyn yn cynnwys gweithwyr mudol sy wedi dod o dramor i weithio yn y DU. Yn aml mae gweithwyr mudol yn gweithio mewn gwestai neu dai bwyta, prosesu bwyd, casglu ffrwythau a chasglu pysgod cregyn.

Sut bynnag, os nad oes gennych ganiatâd oddi wrth yr awdurdodau mewnfudo (**Asiantaeth Ffiniau'r DU**) i weithio yn y DU ac yn gweithio'n anghyfreithlon, prin iawn fydd eich hawliau. Os ydych yn gweithio'n anghyfreithlon yn y DU, neu heb fod yn siŵr os oes gennych hawl i weithio yma, ni fydd y rhan fwyaf o'r wybodaeth ar y daflen ffeithiau hon yn berthnasol i chi. Rhaid i chi gael cyngor cyn gynted ag sy'n bosibl oddi wrth ymgynghorydd profiadol.

Os ydych chi'n dod o un o wledydd yr Undeb Ewropeaidd, mae bron yn sicr y bydd gennych ganiatâd i weithio yn y DU. Ers Mai 2011, nid oes yn rhaid i chi gofrestru ar Gynllun Cofrestru Gweithwyr cyn y gallwch weithio yn y DU, oni bai eich bod yn dod o Fwlgaria neu Romania.

Eich hawliau yn y gwaith

Mae gan weithwyr hawliau oherwydd mae yna ddeddfau ynglŷn â sut y caniateir i'r person y byddwch yn gweithio iddo (eich cyflogwr) eich trin. Mae yna bethau y gallwch eu gwneud os yw'ch cyflogwr yn torri'r gyfraith. Sut bynnag, os ydych yn weithiwr mudol ac yn ceisio datrys problem yn y gwaith, mae'n fwy tebygol eich bod chi mewn perygl o golli'ch swydd na gweithwyr eraill, unrhyw lety sy'n mynd gydag ef a hyd yn oed eich hawl i sefyll yn y DU.

Mae'n bosibl nad yr hawliau a esbonnir yn y daflen ffeithiau hon ydyw'r unig hawliau sydd gennych. Er mwyn gwybod mwy fe ddylech gael cyngor (gweler isod).

Yr hawl i isafswm cyflog

Mae yna reolau ynglŷn â faint yr awr y dylai cyflogwr ei dalu i chi. Yr isafswm y mae'n rhaid iddynt dalu ydyw'r hyn y cyfeirir ato fel **Isafswm Cyflog Cenedlaethol** (NMW). Bydd hyn yn dibynnu ar eich oedran. Os ydych chi'n cyflawni gwaith amaethyddol, er enghraifft, casglu cnydau neu ffrwythau, mae'r rheolau ynglŷn â faint y dylech ei gael rhywfaint yn wahanol i fathau eraill o swyddi.

Rhaid i'ch cyflogwr roi slip cyflog i chi, sy'n nodi faint a dalwyd i chi. Efallai y gwelwch chi fod eich cyflogwr wedi didynnu arian o'ch cyflog ar gyfer pethau fel eich llety, prydau bwyd, hyfforddiant, cost teithio i'r gwaith, neu gost teithio i'r DU. Efallai y byddan nhw'n tynnu arian o'ch cyflog hefyd i dalu am y costau o drefnu'r swydd i chi. Mae yna reolau ynglŷn â faint o arian y gall eich cyflogwr dynnu o'ch cyflog i dalu am bethau fel hyn, ac y mae yna swm set o arian nas gall eich cyflog fynd yn is

Hawlfraint © 2002-2011 Cyngor ar Bopeth. Cedwir pob hawl
Rhif elusen gofrestredig: 279057 Rhif y cwmni: 1436945 Lloegr

nag ef. Mae yna uchafswm ar gyfer llety y gellir ei ystyried wrth gyfrifo a ydych yn derbyn yr NMW ai peidio.

Os yw'ch cyflogwr yn didynnu arian o'ch cyflog ar gyfer llety neu hyfforddiant, gallant wneud hyn os ydych chi wedi cytuno iddo'n ysgrifenedig yn unig. Ond hyd yn oed os ydych wedi cytuno i hyn, ni all eich cyflogwr dalu llai i chi na'r ICC (NMW). Os ydych chi'n credu nad ydych yn derbyn yr holl arian sy'n ddyledus i chi, fe ddylech chi gael cyngor.

Os ydych chi am gyngor pellach ynglŷn â'r Isafswm Cyflog Cenedlaethol, fe allwch chi ffonio llinell gymorth Hawliau Cyflog a Gwaith ar 0800 917 2368. Mae'r llinell gymorth yn gyfrinachol ac fe gewch chi gyngor mewn ieithoedd gwahanol.

Yr hawl i weithio'r uchafswm o oriau'r wythnos
Mae yna reolau ynglŷn â'r nifer o oriau y caniateir i chi weithio bob wythnos. Ddylech chi ddim gorfod gweithio mwy na 48 awr yr wythnos, oddieithr eich bod wedi cytuno'n ysgrifenedig gyda'ch cyflogwr i wneud hynny. Ni ellir eich gorfodi i weithio mwy na 48 awr yr wythnos. Mae gennych yr hawl hefyd i gael egwyl yn ystod diwrnod gwaith ynghyd â diwrnodau'n rhydd o'r gwaith yn ystod yr wythnos. Mae yna reolau arbennig ar gyfer bobol sy'n cyflawni gwaith amaethyddol. Os ydych chi'n credu eich bod yn gweithio mwy o oriau nag y dylech chi, dylech gael cyngor (gweler isod).

Yr hawl i wyliau gyda chyflog
Mae gennych yr hawl i 5.6 wythnos o wyliau gyda chyflog o'r gwaith pob blwyddyn. Mae hyn yn golygu bod gennych yr hawl i 28 diwrnod o wyliau'r flwyddyn os ydych yn gweithio pum niwrnod yr wythnos. Os nad ydych yn derbyn gwyliau o'r gwaith, neu os na chewch wyliau gyda chyflog, dylech gael cyngor.

Yr hawl i amddiffyniad iechyd a diogelwch
Rhaid i'ch cyflogwr sicrhau fod eich gweithle yn ddiogel i chi weithio ynddo. Golyga hyn fod yn rhaid iddyn nhw sicrhau eich bod yn medru cyflawni'r gwaith mewn ffordd na fydd yn eich niweidio neu eich gwneud yn sâl, a'ch bod yn deall y rheolau diogelwch. Os ydych chi'n credu nad yw'ch gweithle yn ddiogel i weithio ynddo, dylech gael cyngor.

Hawliau rhiant yn y gwaith
Mae gan y mwyafrif o fenywod sy'n gweithio yr hawl i gael amser yn rhydd o'r gwaith i gael babi. Gelwir hwn yn **absenoldeb mamolaeth**. Sut bynnag, nid oes gan bob gweithiwr yr hawl hwn. Dywed rhai cyflogwyr nad oes hawl gennych i gael absenoldeb mamolaeth heb fod hynny'n wir. Os yw'ch cyflogwr yn dweud nad oes gennych hawl, dylech gael cyngor.

Fe allwch chi gymryd i fyny at 52 wythnos o absenoldeb mamolaeth. Sut bynnag, dim ond rhai menywod sy'n derbyn absenoldeb mamolaeth gyda chyflog. I wirio os fedrwch chi gael absenoldeb mamolaeth gyda chyflog, dylech gael cyngor.

Gall rhai pobl gael **absenoldeb tadolaeth** gyda chyflog pan fydd eu gwraig neu eu partner newydd gael babi. I wirio os oes gennych hawl i'r absenoldeb hwn, dylech

Hawlfraint © 2002-2011 Cyngor ar Bopeth. Cedwir pob hawl
Rhif elusen gofrestredig: 279057 Rhif y cwmni: 1436945 Lloegr

gael cyngor. Gallwch hefyd fod yn gallu rhannu ychydig o gyfnod mamolaeth eich partner. I wirio p'un ai bod gennych yr hawl i gael y cyfnod hwn – mynnwch gyngor.

Yr hawl i gael eich amddiffyn rhag gwahaniaethu
Mae gan bob gweithiwr yn y DU yr hawl i gael ei amddiffyn rhag gwahaniaethu gan eu cyflogwr. Mae hyn yn cynnwys gwahaniaethu ar sail oed, anabledd, ailbennu rhywedd, priodas a phartneriaeth sifil, beichiogrwydd a hil mamolaeth, crefydd neu gred, rhyw neu rywioldeb.

Yr hawl i adael eich swydd
Rhaid caniatáu i chi adael eich swydd os nad ydych am weithio yno rhagor. Ni all neb, gan gynnwys eich cyflogwr, eich rhwystro rhag gwneud hyn. Ni chaniateir i rai gweithwyr mudol gan Asiantaeth Ffiniau'r DU i ddod o hyd i waith arall os fyddan nhw'n gadael y swydd y daethant i'r DU amdani neu os cant eu diswyddo. Efallai y bydd yn rhaid i chi aros hyd nes bydd y Swyddfa Gartref wedi trefnu eich gwaith papur cyn cael swydd arall.

Os ydych chi wedi gadael eich swydd neu wedi'ch diswyddo ac yn ansicr os fedrwch chi gael un arall, dylech gael cyngor (gweler isod) .

Os ydych chi am adael y DU cyn y dyddiad y cytunwyd arno rhyngoch chi a'r person yr ydych yn gweithio iddo, efallai y gwelwch chi na fedrwch chi newid y dyddiad teithio ar eich tocyn dychwelyd. Gall hyn ddigwydd os talwyd am eich taith i'r DU gan rywun arall megis asiantaeth. Os ydych yn y sefyllfa hon, dylech gael cyngor.

Eich cyflogwr yn dal gafael ar eich pasbort
Ni chaniateir i'ch cyflogwr nac asiantaeth cyflogi i ddal gafael ar eich pasbort neu unrhyw ddogfennau swyddogol eraill am fwy na diwrnod. Os yw'ch cyflogwr yn dal gafael ar eich pasbort heb eich cytundeb chi, fe allent fod yn torri'r gyfraith. Os na fyddan nhw'n rhoi'r pasbort yn ôl i chi pan ofynnwch amdano, dylech gael cyngor.

Problemau gydag asiantaethau cyflogi a gang feistri

Efallai eich bod wedi dod i weithio yn y DU achos bod **asiantaeth cyflogi** wedi dod o hyd i waith i chi. Weithiau nid yw asiantaethau cyflogi yn dweud y gwir wrthych am y gwaith. Efallai y gwelwch nad ydych yn cael eich talu yn ôl y disgwyl, neu nid ydyw'r amodau gwaith mor dda ag y dywedwyd wrthych.

Sut bynnag, fedrwch chi ddim gwneud dim ynglŷn â hyn os nad oes gan yr asiantaeth swyddfeydd yn y DU. Os nad oes gan yr asiantaeth swyddfa yn y DU, fel arfer does dim y medrwch chi ei wneud.

Efallai y byddwch yn gweithio i **gang feistr** yn y DU. Gang feistr yw rhywun sy'n trefnu gwaith i bobol, er enghraifft, ar ffermydd, mewn gwestai, tai bwyta, neu ysbytai neu ar safleoedd adeiladu.

Os ydych chi'n cael problemau gyda'ch asiantaeth cyflogi, fe allwch gael cyngor pellach oddi wrth linell gymorth Hawliau Cyflog a Gwaith ar 0800 917 2368.

Hawlfraint © 2002-2011 Cyngor ar Bopeth. Cedwir pob hawl
Rhif elusen gofrestredig: 279057 Rhif y cwmni: 1436945 Lloegr

Fodd bynnag, gallwch ond wneud hyn os oes gan yr asiantaeth swyddfeydd yn y DU. Os nad oes gan yr asiantaeth swyddfa yn y DU, fel arfer nid oes unrhyw beth allwch ei wneud.

Cymorth ychwanegol

Y Ganolfan Cyngor ar Bopeth
Mae'r Canolfannau Cyngor ar Bopeth yn rhoi cyngor cyfrinachol, diduedd ac annibynnol yn rhad ac am ddim i'ch helpu chi i ddatrys eich problemau. I ddod o hyd i'ch CAB agosaf, gan gynnwys y rheiny sy'n rhoi cyngor drwy e-bost, cliciwch ar CAB agosaf neu edrychwch yn eich llyfr ffôn dan y llythyren C.

Cyngres yr Undebau Llafur (TUC)
Fe allwch chi gael gwybodaeth am hawliau yn y gwaith i weithwyr mudol ar wefan y TUC sef www.worksmart.org.uk. Mae gwefan mewn Pwyleg hefyd yn www.pracawbrytanii.eu ac mewn Portiwgaleg yn: www.trabalharnoreinounido.org .

Gwefan Directgov
Mae gan wefan y llywodraeth wybodaeth ar gyfer gweithwyr amaethyddol a'u hawliau i dderbyn isafswm cyflog amaethyddol Lloegr a Chymru. Ewch i www.direct.gov.uk.

Asiantaeth Ffiniau'r DU
Am fwy o wybodaeth am hawliau gweithwyr mudol Bwlgaria a Romania ewch i wefan Asiantaeth Ffiniau'r DU yn www.ukba.homeoffice.gov.uk.

Gwybodaeth arall ar Adviceguide a allai eich helpu

- Hawliau Sylfaenol yn y gwaith
- Gweithwyr o dramor yn y DU - amaethyddiaeth a phrosesu bwyd.
- Isafswm Cyflog Cenedlaethol
- Rhybudd diswyddo o'r gwaith
- Cyflogwr yn dal eich cyflog yn ôl
- Oriau Gwaith

Caiff y dudalen ffeithiau hon ei chynhyrchu gan Gyngor ar Bopeth, enw gweithredol Cymdeithas Genedlaethol y Canolfannau Cyngor ar Bopeth. Ei ddiben yw darparu gwybodaeth gyffredinol yn unig ac nid yw'n ddatganiad llawn o'r gyfraith.

Mae'r wybodaeth yn berthnasol i Loegr, Cymru a'r Alban yn unig.

Diweddarwyd y daflen ffeithiau hon ar 5 Rhagfyr 2011, a chaiff ei adolygu bob mis. Os ydych wedi cael y daflen ffeithiau hon am gyfnod, cysylltwch â'ch Canolfan Cyngor ar Bopeth er mwyn gwirio os yw'r wybodaeth sydd arni yn dal i fod yn gywir. Neu rhowch glic ar ein gwefan - - www.adviceguide.org.uk - lle gallwch lawr lwytho copi diweddaraf.

Hawlfraint © 2002-2011 Cyngor ar Bopeth. Cedwir pob hawl
Rhif elusen gofrestredig: 279057 Rhif y cwmni: 1436945 Lloegr